



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Cefnogi lleoliadau dysgwyr yn ystod Covid-19

Canllawiau ar sut i gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant i leoli dysgwyr yn ystod Covid-19.

First published: 8 December 2020

Last updated: 16 November 2022

This document was downloaded from [socialcare.wales](https://socialcare.wales) and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/canllaw-lleoliad-gwaith/cefnogi-lleoliadau-dysgwyr-yn-ystod-covid-19> for the latest version.

Yn ystod ansicrwydd Covid-19 mae rhai lleoliadau gofal plant wedi bod yn llai tebygol o ddarparu lleoliadau i ddysgwyr. Dyma arweiniad ac adnoddau i ddarparwyr dysgu a dysgwyr gefnogi gweithio diogel yn ystod y pandemig.

## **Pam fod lleoliad dysgu yn bwysig**

Mae lleoliadau gwaith yn rhan bwysig o'r system gymwysterau yng Nghymru gan ei fod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu ymarfer mewn ffordd ddiogel.

Mae darparwyr gofal plant yn cynnig lleoliadau dysgu o ansawdd uchel i ddysgwyr gan eu helpu i ddeall yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn ymarferol.

## **Beth yw buddiannau lleoliadau dysgu?**

Gall cynnig lleoliadau dysgu ddarparu nifer o fuddion i'r lleoliadau a dysgwyr.

Ar gyfer darparwyr gofal plant:

- Dod i gysylltiad â chronfa o weithwyr posib o'r gymuned
- Cyfrannu at ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o weithlu medrus iawn
- Myfyrio ar adborth a sylwadau gan ddysgwyr
- Adolygu safonau ac arferion yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac o ansawdd da
- Tynnu sylw at yr ystod o rolau sydd ar gael
- Ysgogi pobl i weithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, gwaith chwarae neu flynyddoedd cynnar a gofal plant fel gyrfa o ddewis
- Hyrwyddo'ch gwasanaeth eich hun a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig

- Cefnogi datblygiad eich gweithlu eich hun trwy fentora.

Ar gyfer dysgwyr:

- Cael dysgu drwy brofiad ac asesu ymarfer wrth eich gwaith er mwyn i chi allu cyflawni'r rhan ymarferol o gymwysterau gwaith.
- Arddangos sgiliau ymarferol ar gyfer asesu
- Rhoi cynnig ar amrywiaeth o leoliadau gwaith
- Dysgu am ystod o rolau a fydd yn eich helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eich gyrfa yn y dyfodol
- Magu hyder, datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a allai arwain at gyflogaeth
- Datblygu sgiliau ymarfer myfyriol
- Rhoi adborth i gyflogwyr sy'n eu helpu i wella arfer yn y lleoliad gwaith.

## Canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru

Mae [Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant: cadw gofal plant yn ddiogel Llywodraeth Cymru](#) yn manylu ar sut y mae lleoliadau gofal plant yn gwarchod plant a staff rhag coronafeirws.

- gellir ystyried y rhai ar leoliadau gwaith neu ddysgwyr sy'n mynychu'n rheolaidd fel 'staff' at ddibenion canllawiau Covid-19, ond dylid ystyried lleoliadau dysgu bob amser o safbwynt cymarebau staff ac ati gan gofio [Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir](#).
- Mae staff y darparwr dysgu - er enghraifft aseswyr a thiwtoriaid - wedi'u cynnwys yn y rhestr o "ymwelwyr angenrheidiol" i leoliadau gofal plant. Dylai dysgwyr ddilyn canllawiau, mesurau diogelwch a pholisïau lleol a roddwyd ar waith gan eu darparwr dysgu a'u darparwr lleoliad (y lleoliad).

Dylai lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant weithio gyda'r darparwr dysgu a'r dysgwyr i benderfynu a yw lleoliad yn bosibl. Gall hyn olygu na all rhai lleoliadau ddarparu amgylchedd dysgu addas sy'n cwrdd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, diffyg lle i sicrhau pellter dau fetr rhwng staff neu nad oes digon o oriau o ddarpariaeth.

## **Beth all darparwyr a dysgwyr ei wneud cyn lleoliad dysgu**

Mae darparwyr dysgu a dysgwyr yn cymryd camau ychwanegol yn ystod Covid-19 i sicrhau bod dysgwyr, a phlant a staff mewn lleoliadau yn ddiogel.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gall dysgwyr a lleoliadau ei wneud cyn lleoliadau dysgu:

### **Aseiad risg dros y ffôn**

Gall darparwyr dysgu, dysgwyr a rheolwr/arolygydd cofnodi/arweinwyr gael sgwrs dros y ffôn cyn i'r lleoliad dysgu gychwyn.

Gall darparwyr dysgu gynnal aseiad risg dros y ffôn a rhannu'r aseiad risg gyda'r lleoliadau.

Gall lleoliadau rannu eu polisiâu, eu gweithdrefnau a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan ddysgwyr mewn perthynas â rheoli ac atal heintiau yn ddigidol.

Yr aseiad risg hwn i ddarparwyr dysgu ei lenwi cyn i leoliad dechrau yn ystod Covid-19. Gall darparwyr dysgu gysylltu â lleoliadau cyn i'r lleoliad dysgu y cytunwyd arno gychwyn er mwyn cynnal yr aseiad risg.

## Asesiad risg blynyddoedd cynnar yng nghyd-destun Covid-19 (Tachwedd 2020 i Fehefin 2021)

DOCX 108KB

### **Rhestr wirio i helpu trafodaethau:**

Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i helpu trafodaethau rhwng darparwyr dysgu, dysgwyr a lleoliadau.

- Arfer gorau ar olchi dwylo
- Gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol (PPE)
- Arwyddion a Symptomau Covid-19 a beth i'w wneud ynghylch achosion cadarnhaol neu bosibl a hunan ynysu
- Trafodaethau ynghylch pellter cymdeithasol tu mewn i'r lleoliad ac aros yn saff tu allan i'r lleoliad. Goblygiadau dod â firws i'r lleoliad.
- Teithio yn ôl ac ymlaen i'r lleoliad
- Gwisg myfyriwr – newid yn y lleoliad, gwisg sbâr, gwisg lân.
- Beth i'w wneud os yw plentyn neu aelod o staff yn dangos arwyddion a symptomau yn y lleoliad.
- Cyfrinachedd pan fydd achosion positif yn y lleoliad (e.e. dylid cadw gwybodaeth iechyd personol unigolion yn gyfrinachol)
- Arferion glanhau a glanedyddion diheintio a ddefnyddir a'u rôl o ran Atal a Rheoli Heintiau
- Swigod a chynnal swigod yn y lleoliad (aros gyda'r un grwpiau o blant a staff)
- Mannau a rennir fel toiledau a cheginau / ystafelloedd staff
- Asesiad risg o leoliadau a phwysigrwydd tynnu sylw at unrhyw bryderon diogelwch i staff ac arweinwyr
- Rhestr wirio a chanllawiau cyn lleoliad dysgu

- Manylion personol y myfyriwr a gadwir yn y lleoliad gan gynnwys manylion cyswllt y tu allan i oriau
- Manylion cyswllt yr arweinwyr yn ystod y dydd a gyda'r nos pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch symptomau neu eu bod wedi bod mewn cysylltiad ag achos positif (manylion perthynas agosaf y myfyriwr mewn argyfwng ac ati).

## **Helpu dysgwyr i gadw'n ddiogel ac amddiffyn eraill**

Gall dysgwyr hunanofalu er mwyn gwarchod eu hunain ac eraill.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cadw eu hunain yn ddiogel cyn ac yn ystod y lleoliad dysgu. Dylai dysgwyr:

- dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a chanllawiau lleol Covid-19 i gadw'r rheini sydd ar leoliad yn ddiogel.
- llwytho a defnyddio'r [ap profi ac olrhain Covid-19 y NHS](#).

## **Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer lleoliadau gofal plant:**

Mae angen meddwl yn ofalus cyn derbyn dysgwr ar leoliad, yn arbennig yn ystod y pandemig presennol. Dyma restr o bethau all eich helpu i barhau gyda lleoliadau a chydymffurfio gyda chanllawiau Covid-19 ar yr un pryd.

### **Rheoli swigod**

Mae dysgwyr yn cael eu hystyried fel staff at ddibenion lleoliad. Cynhwyswch ddysgwyr mewn swigod penodol o fewn ystafelloedd/timau er mwyn galluogi cyn lleied o gyswllt â phosib.

## Blaenoriaethu ystodau oedran ar gyfer cwblhau'r asesiad

Ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau mwy nag un ystod oedran, blaenoriaethwch lleoliadau dysgu o fewn ystodau oedran penodol ar gyfer y rhai sydd angen cwblhau asesiad ffurfiol.

## Lleoliadau bloc

Gostyngwch y risg o haint trwy adael i'r dysgwr fod mewn un lle am nifer o wythnosau, gan leihau cyswllt ag eraill y tu allan i'r lleoliad yn hytrach na lleoliad dysgu 2/3 diwrnod yr wythnos dros fwy o amser.

Dyma rhai astudiaethau achos gwirioneddol i gynorthwyo lleoliadau dysgu.

[Astudiaeth achos Meithrinfa Ddydd Little Lambs](#)

PDF 119KB

[Astudiaeth achos Coleg Pen-y-bont ar Ogwr - lleoliadau gofal plant yn ystod pandemig](#)

PDF 356KB

## Adnoddau i gefnogi lleoliad diogel

Efallai y gallai darparwyr lleoliad gwaith gynnig cyfleoedd hyfforddi cyn lleoliad gwaith er mwyn cefnogi dysgwyr i dderbyn lleoliad gwaith mewn gweithle.

Dylai dysgwyr lawrlwytho ap [profi ac olrhain yr NHS](#).

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).